**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

Hydref 2023

Annwyl Huw,

Diolch i chi a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio. Rwyf wedi darparu ymateb i'ch argymhellion isod.

**Sylwadau cyffredinol ar gydsyniad**

**Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog gadarnhau a oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer gwelliannau 175, 176, 177 a 178, fel y maent yn gymwys i gymal 84 o'r Bil.**

Diolch am dynnu sylw at y mater hwn. Cafodd y cyfeiriadau at rifau gwelliannau 175, 176, 177 a 178 yn yr is-bennawd i Gymal 84 ym mharagraff 34 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) eu cynnwys mewn camgymeriad. Gallaf gadarnhau nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y gwelliannau hyn.

**Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog esbonio pam y newidiodd ei safbwynt a pham y mae bellach yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad ar gyfer cymal 230 o'r Bil (cymal 191 fel y'i cyflwynwyd).**

Cymal 230 (cymal 191 fel y'i cyflwynwyd) yw pŵer cyffredinol yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth ganlyniadol. Fel y'i cyflwynwyd, nid ystyriodd y Bil faterion datganoledig, rôl awdurdodau datganoledig na'r Senedd. Felly, roedd angen gwrthod rhoi cydsyniad mewn perthynas â'r pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol.

Yn arwyddocaol, ni roddodd y Bil, fel y'i cyflwynwyd, bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan Bennod 1 o Ran 3 a Rhan 6 na gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig. Felly, byddai diwygiadau canlyniadol a wnaed o dan gymal 230 wedi'u cysylltu â'r pwnc a gwmpesir gan y rheoliadau hynny, wedi bod o fewn cymhwysedd y Senedd ac, felly, nid oeddem yn argymell y dylid rhoi cydsyniad ar yr adeg honno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd, yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan Bennod 1 o Ran 3 a Rhan 6. Gall unrhyw reoliadau o'r fath gynnwys diwygiadau canlyniadol angenrheidiol yn rhinwedd cymal 231.

Bydd cymal 230 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth ganlyniadol mewn perthynas â'r Bil yn gyffredinol, a allai gynnwys darpariaethau o ganlyniad i faterion nas cedwir yn ôl. Felly, mae angen cydsyniad. Fodd bynnag, rhagwelwn y byddai'r prif welliannau mewn perthynas â Phennod 1 o Ran 3 a Rhan 6 yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau a fyddai'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan y Rhannau hynny. Pan wneir diwygiadau canlyniadol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, byddai'r Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol yn unol â Rheol Sefydlog 30A yn cael ei ddwyn i rym.

**Argymhelliad 3. Dylai’r Gweinidog esbonio:**

**– a oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 231 o'r Bil (cymal 192 fel y'i cyflwynwyd);**
**– pam y mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 231, fel y'i diwygiwyd gan welliannau 288, 291, 294 a 298.**
**– pam y mae’n argymell bod y Senedd yn cydsynio i gymal 231.**

Nid oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 231 (cymal 192 fel y'i cyflwynwyd). Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru, pan fyddant yn gwneud rheoliadau, i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer meysydd gwahanol, a darpariaeth ganlyniadol, ddeilliadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed. Gan ein bod yn argymell y dylid cydsynio i'r pwerau i wneud rheoliadau ym Mhennod 1 o Ran 3 a Rhan 6 o'r Bil, rydym hefyd yn argymell y dylid cydsynio i gymal 231.

**Rhan 1 o'r Bil**

**Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog esbonio pam y mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt a pham y mae bellach yn argymell y dylai’r Senedd gydsynio i Ran 1 o'r Bil.**

**Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog esbonio’r rhesymau pam y newidiodd Llywodraeth Cymru ei safbwynt ar Ran 1 o'r Bil a phryd y gwnaed y penderfyniad i argymell y dylai’r Senedd roi ei chydsyniad, o ystyried Datganiad Ysgrifenedig y Cwnsler Cyffredinol ar 23 Mehefin 2023 a’r ffaith bod gwelliannau perthnasol wedi eu cyflwyno ddechrau mis Gorffennaf 2023.**

**Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog esbonio pam na ysgrifennodd at bwyllgorau'r Senedd cyn gynted ag y newidiodd ei safbwynt ar Ran 1 o'r Bil, yn enwedig o ystyried y cafodd Memorandwm Rhif 4 ei osod yn ystod toriad yr haf ar 16 Awst 2023, a thua mis ar ôl i’r gwelliannau perthnasol gael eu cyflwyno (y tu allan i ofynion arferol Rheol Sefydlog 29) yn Senedd y DU.**

**Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ddatgan a yw Llywodraeth Cymru yn parhau o’r farn bod Rhan 1 o'r Bil yn “yn cynrychioli ymyrraeth amhriodol yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.”**

Yr ymateb i argymhellion 4, 5, 6 a 7

Yn dilyn cyfarfod â Dehenna Davison AS, sef y Gweinidog Ffyniant Bro ar y pryd, ar 22 Mawrth a llythyr dyddiedig 27 Mawrth 2023, ysgrifennais at y Gweinidog Ffyniant Bro ar 26 Ebrill 2023 gan gadarnhau ein safbwynt, sef yr hoffem weld Rhan 1 yn cael ei diwygio, gan

adlewyrchu ein barn y byddai angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 o’r Bil. Ar 3 Gorffennaf, cyfarfûm â'r Gweinidog er mwyn trafod gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU. Ysgrifennodd y Gweinidog Ffyniant Bro ataf (4 Gorffennaf) er mwyn cadarnhau safbwynt Llywodraeth y DU o ran ei gwelliannau arfaethedig. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i Ran 1 (Cenadaethau Ffyniant Bro) ar 4, 5 a 6 Gorffennaf i'w hystyried ar gam Tŷ'r Arglwyddi. Cafodd y gwelliannau hyn eu trafod ar 11 Gorffennaf 2023.

Cawsom wybodaeth am welliannau arfaethedig i'r Bil gan Lywodraeth y DU ar fyr rybudd ac, felly, roedd angen inni asesu goblygiadau'r gwelliannau hyn o safbwynt cyfreithiol a pholisi er mwyn cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol, a gwnaethom hynny ar y cyfle cyntaf posibl. Cadarnhaodd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau.

Mae'r gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU yn cydnabod rôl y Senedd a Llywodraeth Cymru yn y meysydd datganoledig a gwmpesir gan y Cenadaethau Ffyniant Bro yn glir, ac yn ymateb i'r pryderon rydym wedi'u mynegi'n gyson i Lywodraeth y DU ynghylch y Bil hwn.

Mae'r gwelliannau'n gosod sawl rhwymedigaeth ymgynghori a sylw dyladwy ar Lywodraeth y DU wrth bennu'r datganiad am Genadaethau Ffyniant Bro a methodoleg gysylltiedig, adrodd arno, ei ailystyried a'i adolygu. Mae'r diwygiadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar y modd y mae wedi rhoi sylw dyledus i rôl Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru, a fydd yn destun craffu.

Yn ymarferol, byddai'n ofynnol i Lywodraeth y DU ystyried rôl y Senedd a Llywodraeth Cymru, a fyddai'n golygu bod angen iddi gynnal ymgynghoriad priodol a rhoi sylw dyledus. Rwy'n cydnabod bod hwn yn welliant yr oedd angen dybryd amdano i'r Bil, gan osod cyfyngiad angenrheidiol ar Weinidog perthnasol y Goron mewn materion datganoledig, a chreu adroddiad sy'n destun craffu ar y modd y mae wedi rhoi sylw dyledus.

Rwy'n fodlon bod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 4 Gorffennaf 2023 yn gwella'r sefyllfa a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol a osodwyd ar gyfer y Bil hwn ar 25 Tachwedd 2022.

**Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog ddatgan a yw’n bwriadu cyflwyno Bil gan Lywodraeth Cymru sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â Rhan 1 o'r Bil er mwyn galluogi’r Senedd a'i Phwyllgorau i graffu ar hyn, yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru, ac os felly pryd.**

**Argymhelliad 10. Dylai’r Gweinidog esbonio:**

- **i ba raddau y mae’r darpariaethau yn y Bil wedi’u cynnwys eisoes yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac a oes unrhyw wrthdaro neu orgyffwrdd rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth;**
- **sut y bydd y Bil a Deddf 2015 yn gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd;**
- **a oes unrhyw oblygiadau’n deillio o'r Bil ar gyfer rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf 2015, o ystyried ei sylwadau yn y Memorandwm diwygiedig.**

Yr ymateb i argymhellion 8 a 10

Mae Rhan 1 o'r Bil yn gosod dyletswyddau ar Lywodraeth y DU. Mae gennym fframwaith deddfwriaethol mwy cynhwysfawr eisoes ar gyfer gwneud polisïau systemig hirdymor drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gwella llesiant pawb yng Nghymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yw cenhadaeth graidd y Llywodraeth hon ac mae'n sail i'r dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Drwy Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gennym fframwaith deddfwriaethol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gyfan ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r darpariaethau yng nghymalau 1-6 o'r Bil yn cynnwys rhai o'r elfennau y darparwyd ar eu cyfer eisoes drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu ar gyfer cyfres o nodau llesiant hirdymor i Gymru y bwriedir iddynt ateb yr heriau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol allweddol. Mae'n gosod dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru i bennu a chyflawni amcanion llesiant y bwriedir iddynt sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Mae hyn yn cynnwys 48 o gyrff cyhoeddus (gan gynnwys y Cyd-bwyllgorau Corfforedig rhanbarthol) a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhai Cynghorau Cymuned a Thref. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn cynnwys cyflwyno adroddiadau blynyddol drwy adroddiad llesiant Cymru, sefydlu dangosyddion a cherrig milltir llesiant cenedlaethol a'r angen i'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus bennu amcanion a chyflwyno adroddiadau cysylltiedig.

Nid oes i'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae'n creu tirlun polisi a allai beri dryswch o gofio ein bod wedi pennu'r nodau llesiant hirdymor i Gymru gyda dangosyddion cysylltiedig a cherrig milltir cenedlaethol gan edrych at 2050. Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byddem yn disgwyl iddynt gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a llunio a chyflawni amcanion llesiant sy'n cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru.

Er enghraifft, er na chaniatawyd i Lywodraeth Cymru gymryd rhan yn y gwaith o lunio a chyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a ddylai fod wedi'i datganoli i Gymru, ysgrifennodd Gweinidog yr Economi (Mehefin 2022) at awdurdodau lleol er mwyn pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod eu cynlluniau buddsoddi a'u hymyriadau yn cyd-fynd â darpariaeth, polisïau a ffyrdd o weithio Llywodraeth Cymru drwy *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* er mwyn sicrhau gwerth gwell am arian a chanlyniadau gwell i Gymru

**Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog ddatgan pa drafodaethau y mae wedi eu cael â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch cyflawni pob un o’r cenadaethau ffyniant bro sy’n berthnasol i Gymru o dan Ran 1 o'r Bil a chyflwyno adroddiadau arnynt.**

**Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog ddatgan sut y bydd dull Llywodraeth Cymru o lunio polisïau ar faterion sy'n ymwneud â ffyniant bro yn newid pe bai Senedd y DU yn pasio ac yn deddfu’r Bil.**

**Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog ddatgan pa drefniadau rhynglywodraethol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio wrth ymgysylltu â’r agenda ffyniant bro a gweithredu Rhan 1 o'r Bil, a pha drefniadau a roddir ar waith ganddi i sicrhau y gall y Senedd a'i Phwyllgorau ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.**

**Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog ddatgan pa fecanwaith y bydd yn ei defnyddio i geisio ‘rôl gwneud penderfyniadau ar y cyd’ wrth gytuno ar sut i wario'r arian sy'n cefnogi'r agenda ffyniant bro (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin), a pha drefniadau y bydd yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Senedd a'i Phwyllgorau yn gallu dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.**

**Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog gyflwyno adroddiad i'r Senedd cyn 12 Rhagfyr 2023 ar ganlyniad ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas ag argymhellion 12 a 13.**

**Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog wneud datganiad i'r Senedd yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad sydd ei angen bellach o dan Ran 1 o'r Bil ac i wneud trefniadau priodol i sicrhau bod datganiad cyntaf Llywodraeth y DU am genedlaethau ffyniant bro yn cael ei ddwyn i sylw'r Senedd o fewn 7 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod yn Senedd y DU.**

Yr ymateb i argymhellion 9, 11, 12, 13, 14 a 15

Mae agenda a chenadaethau Ffyniant Bro Llywodraeth y DU yn cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd, y mae rhai ohonynt wedi'u datganoli i Gymru. Er bod Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu i ryw raddau â Llywodraeth Cymru ynghylch polisïau sy'n effeithio ar ein heconomi a'n marchnad lafur (er enghraifft Porthladdoedd Rhydd), a hynny mewn ffordd ystyrlon, nid yw wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch meysydd eraill, gan gynnwys materion datganoledig, neu mae wedi ymgysylltu â hi mewn ffordd sy'n llai na boddhaol (er enghraifft, wrth lunio a chyflwyno'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro yn ogystal â chyfres o gynlluniau llai gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, gyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch y Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi ar 1 Hydref, gyda Llywodraeth y DU yn gwrthod rhoi unrhyw rôl gwneud penderfyniadau i Lywodraeth Cymru er bod y materion hyn yn rhai datganoledig).

Nid yw'n gymorth i ni fod Llywodraeth y DU yn parhau i ddefnyddio pwerau cymorth ariannol Marchnad Fewnol y DU i osgoi llywodraethau datganoledig a phrosesau craffu eu priod ddeddfwriaethau er mwyn gwario'n uniongyrchol mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig. Mae hyn yn peri risg o ddyblygu, gwerth gwael am arian a chanlyniadau gwael, a thirlun cyllido dryslyd sy'n gwbl anghydnaws â pholisïau Llywodraeth Cymru ac nad yw'n diwallu anghenion penodol economi a chymunedau Cymru.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio pob sianel gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn cyfleu ein barn a buddiannau Cymru, gan gynnwys, er enghraifft, drwy'r Pwyllgorau Sefydlog Rhyngweinidogol a byddwn yn parhau i bwyso am i benderfyniadau ar faterion datganoledig gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a bod yn destun craffu gan y Senedd. Mae fframwaith deddfwriaethol eisoes yn bodoli er mwyn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud ar bolisïau a deddfwriaeth arfaethedig, y mae'r Senedd a'i Phwyllgorau trawsbleidiol yn rhan ohono.

Yn ôl yr arfer, bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd pan fydd unrhyw beth sylweddol i'w nodi. Mae diweddariadau ar drafodaethau yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Sefydlog Rhyngweinidogol hefyd yn cael eu rhoi i Bwyllgorau perthnasol y Senedd fel rhan o'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng Senedd Cymru a chytundeb Llywodraeth Cymru.

Cyn hir byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog Ffyniant Bro newydd, Neil Young AS, er mwyn ceisio cael eglurhad a sicrwydd ynghylch y ffordd y bydd Llywodraeth y DU yn cydymffurfio â'i dyletswyddau newydd sy'n deillio o'r gwelliannau a'r dull o adrodd ar y cenadaethau hyn, a lle y gellir cael data ar y cenadaethau hyn yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys y broses y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei dilyn er mwyn sicrhau ei bod yn ystyried rôl y Senedd a Gweinidogion Cymru ac ymgynghori'n briodol â Gweinidogion Cymru.

At hynny, mae Cymal 2(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog Llywodraeth y DU lunio dogfen sy'n nodi sut mae wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i 'ystyried' rôl y Senedd a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r cenadaethau ffyniant bro. Mae Cymal 2(3) yn ei

gwneud yn ofynnol i'r ddogfen hon gael ei gosod gerbron dau Dŷ'r Senedd, a'i chyhoeddi, ar yr un pryd, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r datganiad o genadaethau ffyniant bro gael ei gosod gerbron dau Dŷ'r Senedd a'i gyhoeddi. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad hwn yn cael ei ddwyn i sylw'r Senedd.

**Rhannau eraill o'r Bil**

**Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog esbonio:**

**▪ pam y mae wedi cytuno i'r Ysgrifennydd Gwladol gael pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol, mewn meysydd cymhwysedd datganoledig;**
**▪ o dan ba amgylchiadau y byddai'n cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn cysylltiad â data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol, a thrwy hynny wrthod y cyfle i'r Senedd graffu'n llawn ar reoliadau o'r fath o dan ei Rheolau Sefydlog.**

Dechreuodd y Bil hwn mewn modd annerbyniol iawn drwy gynnwys darpariaethau dalfan a oedd yn rhoi'r pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu o fewn cymhwysedd datganoledig. Yr unig gydnabyddiaeth i ddatganoli oedd gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau data cynllunio a rheoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol. O ganlyniad i waith ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mae'r gofynion ymgynghori wedi'u diwygio i ddod yn ofyniad cydsyniad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, naill ai'n annibynnol neu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Dim ond ar ôl cael cydsyniad Gweinidogion Cymru ymlaen llaw y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Mae diwygiadau hefyd yn darparu ar gyfer gofyniad ymgynghori mewn sefyllfaoedd lle y rhoddir swyddogaeth newydd i un o Awdurdodau Datganoledig Cymru e.e., Cyfoeth Naturiol Cymru, neu lle y caiff swyddogaeth ei haddasu neu ei dileu, o dan reoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer mater a gedwir yn ôl.

O ystyried mesurau diogelu'r system gydsynio, credaf fod angen mabwysiadu dull gweithredu pragmataidd yn yr achos hwn, fel sy'n gyson â'n hegwyddorion. Bydd hyn yn galluogi buddiannau posibl y Bil, fel y'u nodir yn fy Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ac yn galluogi llwybrau cydsynio di-dor ar gyfer cynlluniau ar draws awdurdodaethau y gallai fod eu hangen.

Byddai Llywodraeth y DU yn cymhwyso'r dull o ymdrin ag Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol at gyfundrefnau cydsynio a gedwir yn ôl ni waeth a gaiff ei gymhwyso at gyfundrefnau datganoledig ai peidio. Felly, mae'n hollbwysig bod gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau i'w defnyddio os bydd eu hangen arnynt er mwyn sicrhau y darperir yn briodol ar gyfer prosiectau ar draws awdurdodaethau, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu derbyn dull cydredol plws.

Er mwyn cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol neu reoliadau mewn cysylltiad â data cynllunio yn annibynnol, byddai angen i ddiben y ddeddfwriaeth fod yn faterion technegol bach iawn. Ni allaf ragweld y bydd y sefyllfa hon yn codi'n aml.

At hynny, byddai angen rhoi ystyriaeth benodol i arfer y pwerau er mwyn gwneud rheoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol mewn meysydd lle mae prosiectau ar draws awdurdodaethau yn digwydd yn aml. Caniatadau morol yw'r maes mwyaf tebygol lle mae'n gwneud synnwyr cysoni prosesau er mwyn osgoi dyblygu a gweithdrefnau

ychwanegol.  Byddai'n rhaid i unrhyw reoliadau a wnaed ar y cyd gael eu datblygu drwy ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid yng Nghymru.

**Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog egluro yn union sut y mae ei phryderon  ynghylch cymal 155(2) (cymal 128(2) o'r Bil fel y'i cyflwynwyd), o ran hepgor adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 wedi cael eu datrys o ganlyniad i'r  gwelliannau a wnaed i'r Bil.**

Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 27 Mehefin 2023, byddai colli adran 71A yn effeithio ar allu Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer y rhannau cynllunio gwlad a thref o'r gyfundrefn Asesu'r Effaith Amgylcheddol. Fodd bynnag, mae'r gwelliannau i'r Bil, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliad Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol mewn meysydd datganoledig yn golygu bod mecanwaith i'r gyfundrefn Asesu'r Effaith Amgylcheddol gyfan gael ei disodli gan un newydd maes o law, os oes angen.  Gan fy mod o'r farn bod y pwerau i wneud gweithdrefnau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol yn dderbyniol i Weinidogion Cymru, rwyf o'r farn bod yr holl faterion sy'n ymwneud â diddymu adran 71A wedi'u datrys.

**Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog roi dadansoddiad manwl o'r pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir i Weinidogion Cymru o dan y Bil gan gynnwys:**
- **cwmpas pob pŵer;**
- **datganiad o'r bwriad polisi ar gyfer pob pŵer;**
- **pryd y mae'n bwriadu arfer pob pŵer.**

Mae'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sydd wedi'u gosod ar gyfer y Bil yn nodi cwmpas y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru ond rhoddaf ragor o fanylion am y mater hwn mewn ymateb i Gwestiwn 22 isod. O ran datganiad o'r bwriad polisi ynglŷn â'r ffordd rwy'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn a'm hamserlen ar gyfer gwneud hynny, rwy'n awyddus i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch fframwaith priodol i Gymru. Mae hyn yn golygu na allaf nodi'r rhain ar hyn o bryd

**Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog esbonio sut mae ei chytundeb i gynnwys  pwerau cydredol yn y Bil yn gyson â'r egwyddorion y mae'r Gweinidogion wedi cytuno arnynt yn y Cabinet mewn perthynas â phwerau o'r fath, fel y'u nodir yn ei llythyr atom ar 6 Awst 2021.**

Mae'r safbwynt hwn yn gyson â'r egwyddorion hynny, fel y'u nodir yn egwyddor 8. Rwyf wedi ceisio gwelliant pellach i'r ddarpariaeth hon fel y nodir ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5), lle y caiff y darpariaethau ar gyfer yr eithriad mesurau eu cychwyn yn awtomatig.

Yn fy marn i, mae'r sail resymegol a nodir mewn ymateb i argymhelliad 16 yn cyfiawnhau creu'r pwerau cydredol plws hyn.

**Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog ddatgan a yw hi'n bwriadu cyflwyno, cyn  diwedd y Chweched Senedd, Bil gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cynnwys darpariaethau sy'n efelychu'r rhai a geir yn y Bil sy'n ymwneud â data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol fel bod modd i'r Senedd graffu'n  llawn arnynt a fel bod modd llunio cyfraith ddwyieithog, hygyrch i Gymru.**

Nid wyf yn bwriadu cyflwyno Bil gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n elefychu'r darpariaethau hyn yn y dyfodol agos.

**Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog ddatgan pryd y mae'n disgwyl y daw'r cyfle cyntaf a fyddai'n caniatáu i'r holl bwerau cydredol yn y Bil gael eu dileu'n unol â'r egwyddorion y cytunodd y Gweinidogion arnynt yn y Cabinet.**

Fel y nodir mewn ymateb i argymhelliad 16, mae amgylcheddau penodol wedi cael budd o ddull o lunio deddfwriaeth ar y cyd. Felly, ar hyn o bryd, ni allaf nodi pryd y caiff pwerau cydredol eu dileu Mae'r gwelliannau a nodir ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5) yn sicrhau, os byddwn am ddileu pwerau cydredol yn y Bil yn y dyfodol, y gallwn wneud hynny.

**Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog osod gerbron y Senedd ddogfen sy'n egluro'r effaith yng Nghymru, gan gynnwys yr effaith ar faterion datganoledig, a geir gan bob adran o'r Ddeddf sy'n gymwys yng Nghymru o fewn 3 mis i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol (os bydd hynny'n digwydd).**

Yn fy marn i, mae'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd yn nodi'r effeithiau yn unol â Rheolau Sefydlog. Os caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol, dylai'r nodiadau esboniadol roi esboniad pellach o'r Ddeddf, gan gynnwys yr effaith y bydd yn ei chael yng Nghymru.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Y Gweinidog Newid Hinsawdd